**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

**CHIEF OFFICERS APPOINTMENTS COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**2:00yp DYDD IAU 26ain o FAWRTH 2015**

**2:00pm, THURSDAY 26th of MARCH 2015**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**LOWRI HAF EVANS**

**(01286) 679878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd / Distributed .19.03.15

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

**CHIEF OFFICERS APPOINTMENTS COMMITTEE**

**Aelodaeth/Membership** (15)

**Plaid Cymru (7)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Dyfed Edwards Sian Gwenllïan

Selwyn Griffiths Peredur Jenkins

Liz Saville Roberts Dyfrig Siencyn

R.H. Wyn Williams

**Annibynnol/Independent (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Trefor Edwards Jean Forsyth

Eric M. Jones Angela Russell

**Llais Gwynedd (2)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Alwyn Gruffydd Jason Humphreys

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Brian Jones

**Democratiaid Rhyddfrydol/Liberal Democrats (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Stephen Churchman

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor
Chairman and Vice-chairman of the Council

# RHAGLEN

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24ain o Chwefror a’r 6ed o Fawrth 2015, fel rhai cywir.

**(copi yma – papur gwyn)**

**5. CAU ALLAN Y WASG A’R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau’r wasg a’r cyhoedd allan o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae’r paragraff yma’n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy’n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae’r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw’r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o’i ddatgelu

**6. CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER PENODI PENNAETH CEFNOGAETH CORFFORAETHOL A DATBLYGU’R SEFYDLIAD,**

I gyfweld ymgeiswyr ar gyfer y swydd.

# AGENDA

**1. WELCOME AND APOLOGIES**

To receive any apologies for absence.

**2. DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

To receive any declaration of personal interest.

**3. URGENT ITEMS**

To note any items that is a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

**4. MINUTES**

The Chairman shall propose that the minutes of the meetings of this committee held on 24th of February 2015 and 6th of March 2015, be signed as a true record

**(copy herewith – white paper)**

**5. EXCLUSION OF PRESS AND PUBLIC**

The Chairman shall propose that the press and public be excluded from the meeting during the discussion on the following item due to the likely disclosure of exempt information as defined in paragraph 12, Part 4, Schedule 12A of the Local Government Act 1972. This paragraph should apply because the report contains information regarding individuals and the individuals in question are entitled to privacy and there is no overriding public interest that requires the disclosure of personal information relating to those individuals, nor their identities. Consequently the public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.

**6. INTERVIEW CANDIDATES FOR HEAD OF CORPORATE SUPPORT AND ORGANISATIONAL DEVELOPMENT**

To interview applicants for the post

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 24.02.15

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Sian Gwenllian, Jason Humphreys, Brian Jones, Eric M. Jones, Angela Russell, Dyfrig Siencyn a R.H. Wyn Williams.

**Hefyd yn Bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Liz Saville Roberts

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL.**

Datganodd y canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:

Dilwyn Williams ar gyfer yr eitem 6. Nododd nad oedd yna unrhyw fwriad i drafod cyflog y Prif Werithredwr ond gan fod ei gyflog yn cael ei nodi yn y Polisi Tal, pe byddai yna unrhyw drafodaeth ar y mater hwnnw, byddai'n rhaid iddo adael y cyfarfod.

Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol) yn eitem 6 ar y rhaglen gan fod ei swydd yn cael ei ystyried yn swydd prif swyddog ac felly yn destyn y Polisi Tal.

**4. MATERION BRYS.**

Dim i'w nodi

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 o Hydref 2014 fel rhai cywir.

**6. ADRODDIAD POLISI TAL – ADOLYGIAD BLYNYDDOL**

Cyflwynwyd Adroddiad Polisi Tâl i'r Aelodau gan y Prif Weithredwr. Eglurwyd bod rhwymedigaeth gyfreithiol ar holl gynghorau Cymru i fabwysiadu Polisi Tâl i'w staff. Mae'r ddarpariaeth statudol yn ei gwneud hi'n ofynnol i hyn fod yn swyddogaeth y Cyngor Llawn.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Penodi gynghori'r Cyngor ar ei Bolisi Tâl ar gyfer 2015/16 Bydd y Polisi Tâl yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar Fawrth y 5ed.

Gadawodd Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol y cyfarfod ar gyfer trafodaeth cyflogau Uwch Swyddogion

Yn ei gyflwyniad, amlygodd y Prif Weithredwr y prif argymhellion yr oedd angen eu hystyried

i) Effeithiau ail drefnu gwasanaethau sydd wedi digwydd 2014/15.
Adroddwyd bod y swydd Pennaeth Gofal Cwsmer, swydd Pennaeth Cyfreithiol ac un swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol wedi eu diddymu o'r strwythur gyda bwriad pellach o ymuno Swydd Pennaeth Adnoddau Dynol a Phennaeth Strategol a Gwella gan ddileu'r ddwy swydd a chreu un swydd Pennaeth newydd. Adroddwyd bod yr holl gamau yma wedi arbed dros £700,000 mewn blwyddyn lawn, ond i wneud yr arbedion hyn 'roedd gofyn dyrannu nifer o gyfrifoldebau i'r Penaethiaid Adran eraill.

ii) Arfarnu effeithiau'r ail strwythuro
Mewn adroddiad a gomisiynwyd gan Gwwmni Hay, ymddengys mai swydd Pennaeth Cyllid yn unig oedd yn cyfiawnhau codi i fand cyflog uwch o ganlyniad o ail ddyrannu swyddogaethau. Amlygwyd nad oedd unrhyw newid i fandiau cyflog gweddill swyddi Penaethiaid Adran oedd yn cael eu heffeithio gan yr ailstrwythuro.

iii) O ran cyflogau Prif Swyddogion sydd yn cael eu meincnodi yn erbyn y farchnad, gwnaed sylw bod y Cyngor wedi penderfynu ystyried diweddaru yn 2015/16. Awgrymodd Cwmni Hay yn eu hadroddiad bod y meincnodau wedi cynyddu £1,500 ar gyfer swyddi Penaethiaid. Fodd bynnag, yn wyneb yr hinsawdd gyllidol amlygwyd nad oedd yn amserol adolygu'r meincnodau hyn ac o ganlyniad nid oes unrhyw newid i'r Polisi Tâl cyffredinol am y flwyddyn nesaf yn nhermau'r lefelau meincnod h.y. lefel canolrif a chwartel isaf ar gyfer yr un swyddi.

iv) Tynnwyd sylw at y codiad blynyddol cenedlaethol o 2% a delir i weddill staff y Cyngor yn unol â'u cytundeb cenedlaethol. Amlygwyd yr angen i argymell y Cyngor bod y codiad cyflog cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion yn cael ei weithredu oddi ar y 1af o Ionawr 2015.

v) Un newid pellach i'r Polisi Tâl fydd nodi mai pwynt 8 fydd pwynt cyflog isaf y Cyngor yn hytrach na phwynt 7 – bydd hyn yn gam ymhellach tuag at weithredu'r Cyflog Byw.

Diolchwyd i'r Prif Weithredwr am y cyflwyniad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chais i ystyried swyddogaeth i'r Pwyllgor Penodi gael mewnbwn ar benderfynu newidiadau i'r strwythur, mynegodd y Prif Weithredwr er fod y cyfansoddiad yn datgan mai ei hawl a'i ddyletswydd ef fel Pennaeth Gwasanaeth Taledig y Cyngor yw gwneud y penderfyniad terfynol, 'roedd yna risg ei fod am effeithio ar allu'r cabinet i gyflawni ac am y rheswm hwnnw felly 'roedd wedi ymgynghori gyda'r Cabinet (19.2.15) a'u bod wedi derbyn y risg hwnnw.

Mewn ymateb pellach i'r camau nesaf i sicrhau Cyflog Byw, nodwyd bod gwaith yn cael ei gomisiynu i adolygu'r camau priodol gyda bwriad i gyflwyno adroddiad i'r Cabinet neu i'r Pwyllgor Penodi pan fydd wedi ei gwblhau. O ran meincnodau cyflogau Prif Swyddogion, adroddwyd y bwriad i gadw golwg ar y meincnodau ac adolygu'r sefyllfa yn flynyddol.

Amlygwyd yr angen i ddatblygu trefn ar gyfer recriwtio drwy'r Cyngor. Ymddengys yr angen i feithrin talent gan adeiladu ar gryfderau unigolion fel nad yw'r Cyngor yn wynebu sefyllfaoedd anodd yn y dyfodol. Rhaid bod yn wyliadwrus o beidio gor-dorri mewn cyfnod anodd a bod arweiniad clir yn cael i rannu gyda Phenaethiaid a Phrif Swyddogion mewn cyfnod o newid swyddogaethau. Nodwyd hefyd efallai nad oedd y gyfundrefn tâl gyfredol ar gyfer staff o reidrwydd yn briodol ar gyfer lledaenu egwyddorion Ffordd Gwynedd ac felly byddai angen adolygu'r gyfundrefn maes o law er mwyn sicrhau cyfundrefn tâl priodol.

vi) Gadawodd y Prif Weithredwr y cyfarfod ar gyfer trafodaeth cyflogau Prif Weithredwr

Adroddodd yr Uwch Gyfreithiwr bod y raddfa gyflog yn cael ei chynnwys yn y Polisi Tâl ac y byddai yn cael ei adolygu yn flynyddol.

**DERBYNIWYD YR ADRODDIAD YN UNFRYDOL YN UNOL Â'R ARGYMHELLION ISOD.**

- **Y dylid gosod tâl y swydd Pennaeth Cyllid sydd newydd ei harfarnu ar £75,511 o 1 Ionawr 2015.**
- **Nad oes unrhyw newid i fandiau cyflog gweddill swyddi Penaethiaid Adran oedd yn cael eu heffeithio gan yr ailstrwythuro.**
- **Nad oes unrhyw newid i'r Polisi Tâl cyffredinol am y flwyddyn nesaf yn nhermau'r lefelau meincnod h.y. lefel canolrif a chwartel isaf ar gyfer yr un swyddi.**
- **Bod yr ystyriaeth nesaf yn cael ei roi i ail-raddio tal gwirioneddol i lefelau meincnod wrth adolygu Polisi Tal 2016/17 ac yn flynyddol wedi hynny.**
- **Bod y Polisi Tal yn cael ei addasu i nodi mai pwynt 8 fydd cyflog isaf y Cyngor yn hytrach na phwynt 7.**
- **Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Polisi Tal sy'n amgaeedig ar gyfer 2015/16 gan gynnwys bod y codiad cyflog cenedlaethol o 2% ar gyfer Prif Swyddogion yn cael ei weithredu oddi ar y 1af o Ionawr 2015.**

Dechreuodd y cyfarfod am 3:30pm a daeth i ben am 4:40pm

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 06.03.15

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Alwyn Gruffydd, Brian Jones, Eric M. Jones, Liz Saville Roberts ac Angela Russell

**Hefyd yn Bresennol:** Dilwyn O Williams (Prif Weithredwr), Sian Bebb (Ymgynghorydd Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

1. **CROESO AC YMDDIHEURIADAU**
   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.
   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dyfed Edwards, Selwyn Griffith, Sian Gwenllïan, Jason Humphreys, Dyfrig Siencyn ac R.H. Wyn Williams

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

5. **LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH CEFNOGAETH CORFFORAETHOL A DATBLYGU'R SEFYDLIAD**

   Adroddodd y Prif Weithredwr y derbyniwyd tri cais am y swydd oedd wedi ei hysbysebu yn fewnol yn unig. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r angen i gynnal canolfan asesu o ystyried bod y tri ymgeisydd yn deilwng o fod ar y rhestr fer, nododd y Prif Weithredwr bod cynnal canolfan asesu yn greiddiol i broses penodi Penaethiaid er mwyn sicrhau ansawdd a derbyn barn annibynnol.

   **PENDERFYNWYD**
   **Rhoddi tri ymgeisydd ar y rhestr fer.**

(Gwnaed cais gan y Cynghorydd Trefor Edwards i nodi nad oedd yn gefnogol i roi tri ymgeisydd ar y rhestr fer)

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cyfweliadau i'w cynnal Mawrth 26ain 2015.

**CWESTIYNAU AR GYFER Y CYFWELIAD**

Dosbarthwyd pum cwestiwn a thestun cyflwyniad ar gyfer y cyfweliad. Trafodwyd cynnwys y cwestiynau gan awgrymu ychwanegiad i gwestiwn rhif un.

**PENDERFYNWYD**
**I'r Adran Adnoddau Dynol addasu cwestiwn rhif un yn unol â'r argymhelliad**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 2:45pm